Heddlu Police
DYFED-POWYS
Diogelu ein cymunedau, gyda'n gilydd Safeguarding our communities, together

# Asesiad o Effaith TCC ar Breifatrwydd

**Rhif y Camera:** BB_157
**Dyddiad yr Adolygiad:** Mai 2024

**Rhif y Camera.:** BB_157 **Sir:** Ceredigion

**Tref:** Aberaeron **Lleoliad:** London House, Heol y Bont

**Prif Reswm Dros Wylio'r Ardal:**

Man strategol er mwyn cwmpasu Heol y Bont a Sgwâr Alban

**Rheswm Eilaidd Dros Wylio'r Ardal:**

Adran fasnach a thafarndai

**Math o Gamera:** HikVision Darkfighter **Polyn / Adeilad:** Ar adeilad

**Atalydd gwrth-ddringo:** Na **Math o Drosglwyddiad:** Di-wifr

**A yw'r camera'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gorfodi, neu a ellir ei ddefnyddio ar gyfer gorfodi?** Na

**Amodau Cyffredinol o ran Golau:** Da

**Golwg Gyda'r Dydd:** Golau ddydd clir gyda golau naturiol.

**Golwg Gyda'r Nos:** Golwg gwael gyda'r nos. Defnyddir goleuadau stryd lefel is yn yr ardal gydag all-lif sodiwm.

Mae'r ffurflen hon yn sefydlu effaith teledu cylch cyfyng (TCC) ar breifatrwydd pobl, a dylid ei defnyddio er mwyn asesu pa un ai a ellir cyfiawnhau defnyddio TCC, a sut y dylid ei weithredu'n ymarferol. Ar ôl ei chwblhau, dylid ei hadolygu'n flynyddol.

Yn achos camerâu y gellir eu hadleoli, bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar bob lleoliad.

**Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf:** Amh **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** Mai 2025

| **Pwy fydd yn defnyddio'r delweddau TCC?** |
|---|
| Bydd y delweddau'n cael eu defnyddio'n bennaf gan yr heddlu ar gyfer dibenion plismona. Mae'n bosibl y bydd asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith eraill a'r gwasanaethau diogelwch yn ceisio mynediad i'r delweddau ar gyfer dibenion tebyg.<br><br>Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unol â gweithdrefnau a pholisïau Heddlu Dyfed-Powys, a chytundebau Rhannu Gwybodaeth perthnasol. |
| **Pwy fydd yn gyfrifol yn gyfreithiol o dan y Ddeddf Diogelu Gwybodaeth?** |
| Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys fydd y Rheolydd Data ar gyfer y System TCC. |

**Pam fod angen TCC yn y lleoliad hwn?**

Mae'r lleoliad hwn wedi'i adnabod o fewn y Dadansoddiad o Batrymau Troseddu a gyflawnwyd ar gyfer Aberaeron ynghyd â gwybodaeth a gafwyd wrth blismona'r ardal leol.

Bydd y maes gweledig yn cynnwys Heol y Bont a Sgwâr Alban lle mae nifer o siopau, llefydd bwyd a thafarndai wedi'u lleoli.

Bydd yn ymdrin â:

- Troseddau masnach
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Trosedd ac anrhefn sy'n gysylltiedig â'r economi nos

**Beth yw manteision defnyddio TCC?**

- Cynorthwyo â chadw cymunedau Dyfed-Powys yn ddiogel a diogelu'r rhai sy'n agored i niwed
- Hyrwyddo hyder cyhoeddus a chyfrannu at Ddiogelwch Cenedlaethol
- Y gallu i gael tystiolaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi erlyniadau ar ffurf ddiogel ac adalwadwy
- Y gallu i fonitro nifer o leoliadau strategol trwy ddefnydd rhagweithiol o deledu cylch cyfyng a arweinir gan gudd-wybodaeth
- Mae tystiolaeth fideo o ansawdd uchel yn llai tebygol o gael ei herio na thystiolaeth llygad-dyst, gan arwain at lai o bryder ar gyfer dioddefwyr. Hefyd, bydd yn arbed amser y llys ac yn arbed galw swyddogion i ffwrdd o'u gwaith
- Lleihad o ran trosedd ac anrhefn
- Cynorthwyo ag ymchwiliadau a'r broses o adnabod unigolion sy'n gysylltiedig â throseddau
- Cynorthwyo ag ymholiadau unigolion coll
- Rhoi cudd-wybodaeth ar gyfer dibenion plismona
- Y gallu i fonitro digwyddiadau cyfredol ac amser real
- Lleihau'r amser y mae troseddwyr yn treulio yn y ddalfa trwy roi mynediad at ddarnau ffilm TCC yn syth, gan leihau mechnïaeth a phledion euog cynnar.

**Yn realistig, a yw TCC yn medru cyflwyno'r manteision hyn?**

Ydy, trwy:

- Monitro rhagweithiol ac ymatebol gan weithredwyr hyfforddedig
- Y gallu i gynhyrchu tystiolaeth fideo o ansawdd uchel ar gyfer dibenion erlyn
- Y gallu i wylio delweddau / darnau ffilm TCC mewn gorsafoedd lleol.

**A oes angen i chi adnabod unigolion, neu a oes modd i chi ddefnyddio cynllun sydd ddim yn medru adnabod unigolion?**

Oes, mae angen iddo fedru adnabod unigolion. Mae gwir angen cael tystiolaeth sy'n medru adnabod unigolion mewn ffurf o safon uchel i'w defnyddio yn ystod erlyniadau.

| **A yw'r system yn medru cyflwyno'r manteision nawr ac yn y dyfodol?** |
|---|
| Bydd y system o safon uchel ac yn effeithiol, gyda'r gallu i ehangu ac ychwanegu wrth i dechnoleg newydd ddod ar gael. |
| **Pa ofynion fydd yn codi yn y dyfodol ar gyfer defnydd ehangach o'r delweddau, a sut fyddwch chi'n ymdopi?** |
| ▪ Bydd ychwanegu safleoedd / niferoedd camerâu yn cael ei ymchwilio yn dilyn Dadansoddiad o Dueddiadau Trosedd ac ar ôl adnabod mannau problemus<br>▪ Ymchwilir i ddadansoddeg / adnabod wynebau er mwyn cynnal anghenion plismona gweithredol<br>▪ Rheolir mynediad i drydydd partïon o dan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. |
| **Sut fedrwch chi leihau ymyrraeth ar gyfer y rhai a allai gael eu monitro os oes pryderon penodol wedi'u mynegi?** |
| Gellir lleihau ymyrraeth gyda Gweithredwyr o safon uchel sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n ymwybodol o'r holl linynnau amrywiaeth a Hawliau Dynol. Yn ogystal, gellir lleihau unrhyw bryderon trwy gyfathrebu'n effeithiol â grwpiau cymunedol gan ddefnyddio cysylltiad dwy ffordd tryloyw.<br><br>Mae pob camera'n cynnwys 'parth preifatrwydd electronig' lle y gellir eu ffurfweddu i guddio rhannau o'r ddelwedd/delweddau. Gan hynny, ni ellir gweld na recordio ffenestri neu erddi preifat.<br><br>Os caiff unrhyw bryderon penodol a chyfiawn eu mynegi, bydd y Perchennog System yn cynnal adolygiad. |
| **A yw'r system wedi'i sefydlu ar sail gyfreithiol addas ac yn cael ei gweithredu o fewn y gyfraith: Y Ddeddf Diogelu Data, Y Ddeddf Hawliau Dynol, Y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Y Ddeddf Diogelu Rhyddidau a Chodau Ymarfer perthnasol?** |
| ▪ Cydymffurfiwyd â phob un o'r uchod.<br>▪ Mae'r system yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth a chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.<br>▪ Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynhyrchu Polisi TCC. |
| **A oes angen y system ar gyfer myned i'r afael ag angen dybryd, megis diogelwch cyhoeddus, atal trosedd, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Ddiogelwch Cenedlaethol?** |
| Oes, mae'r system yn ofynnol er mwyn:<br><br>▪ Diogelu ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol<br>▪ Rhoi tawelwch meddwl i gymunedau<br>▪ Lleihau ofn trosedd<br>▪ Sicrhau diogelwch cyhoeddus<br>▪ Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>▪ Cynorthwyo'r heddlu, gwasanaethau brys eraill ac asiantaethau partner i reoli digwyddiadau'n effeithiol yn Aberaeron<br>▪ Cynnal peryglon Diogelwch Cenedlaethol posibl. |

| | |
|---|---|
| **A ellir cyfiawnhau'r system o dan yr amgylchiadau?** | Gellir |
| **A yw'n gymesur i'r broblem y mae wedi'i llunio i ymdrin â hi?** | Ydy |
| **A oes arwyddion priodol sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod TCC yn weithredol?** | Oes |
| **Sylwadau Cyffredinol ynglŷn â'r Asesiad.** | |
| Adolygir lleoliad y camerâu'n flynyddol, yn unol ag argymhellion y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth.<br><br>Cyhoeddir pob safle camera ar wefan Heddlu Dyfed-Powys. | |

**Enw'r Unigolyn sy'n Cwblhau'r Ffurflen:** Marie McAvoy

**Llofnod:** Marie McAvoy

**Dyddiad Cwblhau:** 23.05.2024